‘Gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau’

Cyngor Sir Penfro

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

2019-20



www.sir-benfro.gov.uk

Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu

Beth yw Llywodraethu?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â chyfreithiau, rheoliadau a'i safonau moesegol. Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys prosesau, diwylliant, gwerthoedd a systemau ar gyfer cyflawni hyn.

Er mwyn sicrhau llywodraethu da mewn llywodraeth leol, rhaid i'r cyngor a'i swyddogion hefyd geisio cyflawni amcanion Llesiant y Cyngor wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser. Mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu prif ystyriaeth o'r manteision i gymdeithas, a ddylai arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r diagram isod yn dangos gwahanol egwyddorion llywodraethu da yn y sector cyhoeddus a sut maent yn berthnasol i'w gilydd (ffynhonnell: y Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus 2014):

Cod Llywodraethu Lleol

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro gyhoeddi ei god llywodraethu lleol, sy'n dangos ei ymrwymiad i gyflawni'r egwyddorion arfer gorau a ddiffinnir yn Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (CIPFA/SOLACE, 2016). Cafodd Cod Llywodraethu Lleol Cyngor Sir Penfro ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 12 Mehefin 2017. Mae angen diweddaru'r Cod Llywodraethu Lleol yn ystod 2020-21.

Sut rydym yn gwybod bod ein trefniadau yn gweithio?

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff canlyniad yr adolygiad ei ddal o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cyd-fynd â'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu'r Cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad chwarterol ar y gwaith a wnaed gan argymhellion Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol a/neu Reolyddion, y gofrestr risg gorfforaethol, a chynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn flaenorol.

Fel rhan o'r asesiad blynyddol, cynhelir gweithdy gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet i asesu'r trefniadau presennol yn erbyn yr ymddygiadau a'r gweithgareddau a ddiffinnir fel dangos arfer gorau o fewn Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (CIPFA/SOLACE). O ganlyniad i COVID-19, canslwyd y gweithdy a drefnwyd, ond casglwyd yr adborth. Yn ogystal, mae'r holl Gyfarwyddwyr a Swyddogion Statudol yn cwblhau rhestr wirio a datganiad wedi'i lofnodi i asesu effeithiolrwydd eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r Cyngor wedi cael ei effeithio gan y pandemig COVID-19 o fis Mawrth 2020. Bydd yr adolygiad yn nodi'r meysydd sydd wedi cael eu heffeithio a'r trefniadau amgen sydd wedi cael eu rhoi ar waith i liniaru'r effaith ar y Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y ffynonellau o sicrwydd a chanlyniad yr adolygiad ar gyfer 2019-20.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20

Fframwaith Llywodraethu 2019-20

Cod Llywodraethu Lleol

Sicrwydd Sydd ei Angen ar

- Cyflawni amcanion;
- Glynu wrth safonau moesegol;
- Cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a pholisïau a gweithdrefnau mewnol;
- Safonau ymddygiad;
- Rheoli ariannol, gan gynnwys cyflawni gwerth am arian;
- Cynaliadwyedd;
- Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;
- Rheoli risg;
- Atebolrwydd.

Ffynonellau o Sicrwydd

- Cyfansoddiad
- Codau ymddygiad
- Polisïau Corfforaethol/Gwasanaeth a gweithdrefnau
- Swyddogaeth graffu
- Pwyllgor Archwilio
- Swyddogion Statudol
- Archwilio Mewnol ac Allanol a Rheoleiddwyr
- Tîm Rheoli Corfforaethol
- Cwynion
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)
- Gweithdrefn ‘chwythu'r chwiban’
- Gwrth-dwyll
- Polisi Cyflogaeth Foesegol
- Safon Ymddygiad Corfforaethol.
- Rheolau Caffael Contract
- Strategaeth Rheoli Risg Busnes

Sicrwydd a Dderbyniwyd

- Datganiad o gyfrifon
- Adroddiadau archwilio mewnol
- Adroddiadau archwilio allanol
- Adroddiadau rheolydd
- Her Gorfforaethol gan Gymheiriaid
- Pennaeth Barn Archwilio Mewnol
- Arolwg Gwella
- Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon
- Adolygiadau perfformiad
- Rhestrau Gwirio Hunan-asesu
- Swyddog Monitro
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Cofrestrau Risg Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth
- Cyhoeddiadau Rhyddid Gwybodaeth
- Adborth Cwsmeriaid a Chwynion

Meysydd i Ganolbwyntio Arnynt

- Cynllunio Ariannol
- Adferiad Sefydliadol o COVID-19
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Rheoli Galw
- Addysg
- ERW
- Cod Llywodraethu Lleol
- Aliniad Cynllunio Ariannol a Chorfforaethol
- Rheoli Eiddo Masnachol
- Gweithredu Argymhellion yr Adolygiad gan Gymheiriaid
- Model Gweithredu Targed
- Lleihau Carbon
- Systemau Rheoli Gwybodaeth Ariannol
- Parhau i Feithrin Perthnasoedd Cymunedol Cadarnhaol
- Gwrth-dwyll
- Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Rheoli Data

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Sut mae'r Cyngor yn gweithredu

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Mae 60 o aelodau etholedig yn gyfrifol ar y cyd am lywodraethu'r Cyngor. Mae cyfrifoldebau'r Cyngor yn cynnwys:

- **Cytuno ar gyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys gweithdrefnau a dogfennau llywodraethu allweddol yn cynnwys y trefniadau gweithrediaeth a gwneud newidiadau mawr i adlewyrchu arfer gorau;**
- **Cytuno ar y fframwaith polisi gan gynnwys strategaethau allweddol a chytuno ar y gyllideb;**
- **Penodi Prif Swyddogion;**
- **Sefydlu Pwyllgorau sy'n gyfrifol am swyddogaethau trosolwg a chraffu, archwilio, safonau, gwasanaethau democrataidd a materion rheoleiddio a hefyd am benodi aelodau nad ydynt yn wleidyddol gysylltiedig.**

Y cyngor sy'n penodi'r Arweinydd, a fydd wedyn yn penodi ei Gabinet. Mae chwe Phwyllogr Trosolwg a Chraffu a naw Pwyllgor Rheoleiddio ac Erail. Gweler y strwythur isod. Yn ogystal, mae'r Panel Dirprwyo Cynllunio, y Panel Penodiadau a'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn ymarfer rhai swyddogaethau penodol.

Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o bwyllgorau fod yn wleidyddol gytbwys.



Yn ystod ymateb COVID-19, cafodd cyfarfodydd ffurfiol eu hatal dros dro oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo a deddfu. Yn dilyn cyhoeddi Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, dechreuodd cyfarfodydd o bell ar 18 Mai 2020.

Mae'r Prif Weithredwr yn arwain y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr, gyda chymorth Swyddogion Statudol a Phennaeth AD. Y Prif Weithredwr yw'r prif gynghorydd ar faterion polisi cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfathrebu cadarnhaol ac agored a sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu gweithredu mewn modd priodol ac atebol. Mae uwch reolwyr a swyddogion statudol yn gyfrifol am gynghori'r Cabinet a'r Pwyllgorau ar ystyriaethau deddfwriaethol, priodoldeb o ran llywodraethu, agweddau ariannol a pholisi eraill i gyflawni nodau ac Amcanion Llesiant y Cyngor. Maent hefyd yn gyfrifol am roi penderfyniadau'r Aelodau ar waith ac am berfformiad y gwasanaeth.

Swyddogion Statudol

Mae gan y Cyngor nifer o swyddi statudol:

- Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Swyddog Canlyniadau – Prif Weithredwr
- Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151) – Cyfarwyddwr Adnoddau
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Prif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Arweiniol dros Wasanaethau Plant a Phobl ifanc – Cyfarwyddwr Dros Dro Plant ac Ysgolion
- Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Swyddog Monitro
- Swyddog Diogelu Data – Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth

Penderfyniadau

Mae’r Cyfansoddiad yn nodi sut y mae'r awdurdod yn gweithredu, y gwahanol gyrff sy'n ffurfio'r Awdurdod, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, tra bod eraill yn cael eu penderfynu'n lleol gan y Cyngor. Yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19, gwnaed penderfyniadau yn unol â'r trefniadau brys a amlinellwyd yn y weithdrefn ar gyfer dirprwyo aelodau unigol o'r Cabinet. Mae penderfyniadau wedi parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Rhaglen ar gyfer Gweinyddu

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen ar gyfer Gweinyddu ar 16 Ebrill 2018, sy'n nodi nodau a dyheadau'r Cabinet. Mae'r Rhaglen ar gyfer Gweinyddu yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Sir Benfro (gweledigaeth 30 mlynedd) ac yn sail i Gynllun Corfforaethol 2019-20.

Cynnwys y Cyhoedd

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio dulliau cyfathrebu er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd. Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2018. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn llwyfan llwyddiannus ar gyfer cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â'r Cyngor ar nifer o faterion allweddol.

Mae'r cyfansoddiad yn rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r Cyngor. Yn ogystal, mae croeso i aelodau o’r cyhoedd wneud awgrymiadau o ran materion y dylai’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu hadolygu ac adrodd arnynt.

Cynllunio Corfforaethol

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddyletswydd i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Llesiant. Mae rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2009 yn dal i fod mewn grym ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi ein Hamcanion Gwella yn flynyddol.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol 2019-20 a gafodd ei ddylanwadu gan, ac sy'n gyson â Chynllun Llesiant Sir Benfro a Rhaglen ar gyfer Gweinyddu 2018-22 y Cyngor.

Roedd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2019-20 yn cynnwys un amcan trawsbynciol. Y rhestr isod oedd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2019-20:

Amcan Llesiant 1: Parhau i wella canlyniadau addysg fel bod pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag yr oeddent yn meddwl a oedd yn bosibl.

Amcan Llesiant 2: Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal: helpu pobl i gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain yn hytrach na mynd yn ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol.

Amcan Llesiant 3: Gwneud Sir Benfro yn gystadleuol yn economaidd, yn gynhyrchiol ac yn ffyniannus, ac yn lle gwych i ymweld â hi, byw a gweithio ynddi.

Amcan Llesiant 4: Darparu tai o ansawdd da i roi sicrwydd, lles ac ansawdd bywyd i drigolion Sir Benfro.

Amcan Llesiant 5: Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle ar gyfer ansawdd amgylcheddol eithriadol.

Amcan Llesiant 6: Trawsnewid

Partneriaethau Strategol

Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o bartneriaethau strategol, yn ariannol a chydag amser Swyddogion ac Aelodau. Mae'r hyn sy'n sbarduno'r partneriaethau hyn yn cynnwys deddfwriaeth, er enghraifft, 'Sir Benfro Fwy Diogel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol', a pholisi'r Llywodraeth, er enghraifft, 'Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)'. Y canlynol yw Partneriaethau Strategol y Cyngor:

Corfforaethol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (PSB)
- 'Sir Benfro Fwy Diogel' - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Plant ac Ysgolion

- Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
- Coleg Sir Benfro

Gofal Cymdeithasol a Thai

- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth y Comisiwn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru: Oedolion
- Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru: Plant
- Gwasanaeth Mabwysiadu'r Canolbarth a'r Gorllewin
- Grŵp Swyddogion Gofalwyr y Tair Sir
- Cartrefi Dewis Sir Benfro

Gwasanaethau Cymunedol

- Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Partneriaeth Natur Sir Benfro

Yn ystod 2019-20, cynhaliwyd adolygiadau Archwilio Mewnol o ERW a Bargen Ddinesig Bae Abertawe; mae nifer o feysydd i'w gwella o fewn ERW wedi'u nodi am y drydedd flwyddyn yn olynol; nododd yr adolygiad o Fargen Ddinesig Bae Abertawe fod gwelliannau wedi'u gwneud ers y flwyddyn flaenorol.

Prif Swyddog Cyllid

Y Cyfarwyddwr Adnoddau yw Prif Swyddog Cyllid penodedig yr Awdurdod (Swyddog Adran 151). Mae'r swydd statudol hon yn gyfrifol am oruchwylio a chyflawni rheolaeth ariannol y Cyngor. Mae'r rôl hon yn cydymffurfio â'r gofynion arfer da o fewn datganiad CIPFA ar rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi bod yn rhan o'r gwaith o adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi rhoi sicrwydd ar y mesurau rheoli sydd ar waith i reoli cyllid y Cyngor. Ategir hyn gan farn sicrwydd a ddarparwyd gan Archwilio Mewnol yn eu hadolygiad o systemau ariannol ar gyfer 2019-20. Rhoddwyd sicrwydd sylweddol ar gyfer pob system ariannol ac eithrio Rheoli Asedau a Phrisiadau a gafodd farn sicrwydd cymedrol.

Swyddog Monitro

Ymddangosodd y rôl Swyddog Monitro yn gyntaf yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Roedd hyn yn dilyn argymhellion adroddiad Llywodraeth y DU: Cynnal Busnes yr Awdurdod Lleol. Nododd Adran 5 o Ddeddf 1989 fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi Swyddog Monitro a bod dyletswydd ar y Swyddog Monitro i roi gwybod i'r awdurdod os oedd yn ymddangos i'r Swyddog Monitro bod yr awdurdod yn gweithredu, neu'n debygol o weithredu, yn anghyfreithlon, yn groes i unrhyw reol cyfraith neu god neu mewn ffordd a oedd yn gyfystyr â chamweinyddu yn ôl canfyddiad yr Ombwdsmon. Roedd y Swyddog Monitro yn un o'r drindod o swyddogion a ddynodwyd er mwyn hybu a sicrhau gonestrwydd o fewn ei lywodraethiant; y lleill yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Prif Swyddog Cyllid. Mae'r "ddyletswydd chwythu'r chwiban" hon wrth wraidd cysyniad y Swyddog Monitro.

Yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol 2000, y Swyddog Monitro sy'n meddu ar y rôl statudol a'r cyfrifoldeb dros y gyfundrefn safonau moesegol o fewn yr awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori'r Aelodau mewn perthynas â'u diddordebau a'u priodoldeb o ddydd i ddydd, yn cynnal cofrestri statudol, yn hyrwyddo, yn hyfforddi ac yn monitro ymlyniad wrth y Cod Ymddygiad Aelodau (i'r Cynghorau Sir a'r 77 o Gynghorau Tref a Chymuned), yn cynghori'r Pwyllgor Safonau, yn mynychu Panel Dyfarnu Cymru pan fo angen, ac yn gweithredu sancsiynau fel y bo'n briodol.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Monitro fod yn "warcheidwad y cyfansoddiad", gan fod yn gyfrifol am adolygu a chyflwyno newidiadau er mwyn ei gadw'n gyfredol.

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Mae’r Gwasanaethau Cyfreithiol yn wasanaeth annibynnol, gwrthrychol sy'n darparu cyngor nid yn unig i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, ond ar draws y Cyngor mewn perthynas â chefnogi'r holl swyddogaethau gweithredol, o reoleiddio i gynghori. Mae'r gwasanaeth yn ychwanegu gwerth sylweddol o ran rhwystrau a gwrthbwysau, ac mae'n cynorthwyo'r Cyngor yn uniongyrchol i gyflawni ei amcanion drwy werthuso a goruchwylio risg yn ddiduedd.

Mae’r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer yr holl swyddogaethau llywodraethu, rheoleiddio a statudol, gan gynnwys mynychu'r llys, yn darparu cyngor cyfreithiol ar y rhaglen drawsnewid, gan gynnwys rhanbartholi a chydweithredu, ac yn darparu cymorth a chyngor cyfreithiol i Aelodau, y Cyngor, Pwyllgorau a Phaneli, yn cynghori ar y broses ddemocrataidd ac yn cefnogi'r Swyddog Monitro.

Mae’r Gwasanaethau Democrataidd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau statudol wrth ddarparu ar gyfer goruchwyliaeth a strwythur democrataidd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i Aelodau gan gynnwys hyfforddiant, cyngor ar y Cyfansoddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor ac yn cefnogi swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Archwilio mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn wasanaeth sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth i weithrediadau Cyngor Sir Penfro a’u gwella. Mae'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant drwy fynd ati mewn ffordd systematig a disgybledig i werthuso a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Yn unol â'r PSIAS, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol (Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth) i gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd:

"Rwy'n fodlon bod digon o waith sicrwydd wedi'i wneud yn ystod 2019-20 i ganiatáu i mi ffurfio casgliad rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol y Cyngor. Yn gyffredinol, yn amodol ar yr amrywiaeth rhwng gwasanaethau/systemau unigol a'r angen i wella a datblygu ymhellach mewn rhai meysydd, fy marn i yw bod gan yr awdurdod drefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a rheolaeth ariannol digonol ar waith sy'n gweithredu'n effeithiol."

Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw'r archwilwyr allanol a benodwyd ar gyfer Cyngor Sir Penfro. Yn ystod 2019-20, cyhoeddodd Archwilio Cymru'r adroddiadau lleol a chenedlaethol canlynol:

- Cyngor Sir Penfro - Adolygiad Dilynol o Bolisïau a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban a Chwynion
- Cyngor Sir Penfro - Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol
- Cyngor Sir Penfro - Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyngor Sir Penfro - Y Defnydd o Ddata gan Lywodraeth Leol
- Cyngor Sir Penfro - Adolygiad Gwella 2018-19
- Adroddiad Cenedlaethol - Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'
- Adroddiad Cenedlaethol - Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru
- Adroddiad Cenedlaethol - Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion
- Adroddiad Cenedlaethol - Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adroddiad Cenedlaethol - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru - Y Gronfa Gofal Integredig
- Adroddiad Cenedlaethol - Y Gronfa Gofal Integredig
- Adroddiad Cenedlaethol - Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith

Rheolyddion

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhoi barn annibynnol broffesiynol ar y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru. Yn ystod 2019-20, cyhoeddwyd yr adroddiad lleol canlynol:

- Cyngor Sir Penfro - Llythyr Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018-19

Yn ystod 2019-20, cyhoeddwyd yr adroddiadau cenedlaethol canlynol:

- Adolygiad Cenedlaethol o Gymorth i Blant Anabl a'u Teuluoedd
- Adolygiad Cenedlaethol o Ofal i Blant yng Nghymru
- Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â gofal plant a phobl ifanc sy'n brofiadol yng Nghymru
- Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2017-18

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ystod 2019-20, cyhoeddwyd yr adroddiad canlynol:

- Adroddiad Arolygu Cyngor Sir Penfro 2020

Sicrwydd Ychwanegol

Yn ystod mis Chwefror 2020, cymerodd Cyngor Sir Penfro ran mewn Adolygiad Corfforaethol gan Gymheiriaid gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, sef y cyntaf yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2020.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)

Mae'r Cyngor wedi pontio bwlch ariannu o £90m dros y cyfnod 2014-15 i 2019-20 drwy gyfuniad o £20m o incwm ychwanegol o godiadau yn y dreth gyngor (gan gynnwys newidiadau sylfaenol), £68.7m mewn gostyngiadau/arbedion cost, cyfraniad o £0.6m o'r dreth gyngor ail gartrefi fforddiadwy (elfen gymunedol) a chyfraniad untro o £0.7m o gronfeydd wrth gefn.

Disgwylir i'r bwlch ariannu o £6.5m ar gyfer 2020-21 gael ei fodloni drwy leihau costau/effeithlonrwydd ac incwm ychwanegol o gynnydd yn y dreth gyngor. Mae'r gyllideb gymeradwy yn cael ei hailbroffilio ar hyn o bryd o ganlyniad i COVID-19.

Ym mis Chwefror 2020, cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig cryno, yn amodol ar gyllideb Llywodraeth y DU ar 11 Mawrth 2020, a dynnodd sylw at fwlch ariannu rhagweladwy o £32.6m ar gyfer y cyfnod 2020-21 i 2023-24. Disgwylid y byddai Cynllun Ariannol Tymor Canolig manwl yn cael ei gynhyrchu yn ystod chwarter cyntaf 2020-21, ond gohiriwyd hyn o ganlyniad i COVID-19. Bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig manwl yn cael ei gynhyrchu a bydd yn ystyried effaith COVID-19 ar setliadau cyllidol posibl yn y dyfodol, argaeledd cyllid grant (gan gynnwys effeithiau Brexit), y sefyllfa economaidd newidiol ac awydd gwleidyddol lleol i wneud toriadau sylweddol a/neu godiadau yn y dreth gyngor a thaliadau.

Rheoli Risg Busnes

Mae Aelodau a Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod risg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau a bod trefniadau addas yn cael eu rhoi ar waith i reoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau Rheoli Risg Busnes y Cyngor.

Caiff Strategaeth Rheoli Risg Busnes y Cyngor ei hadolygu a'i diweddaru bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyson ag Amcanion Llesiant y Cyngor ac yn adlewyrchiad cywir o'r archwaeth am risg. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Busnes yn amlinellu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r fframwaith cymeradwy ar gyfer rheoli risg busnes.

Crynhoir y Risgiau Corfforaethol a nodwyd ac a reolwyd yn ystod 2019-20 isod, gan gynnwys y raddfa risg weddilliol (1 isel i 16 uchel) ar gyfer pob chwarter (Ch):

Risg Gorfforaethol	Graddfa Weddilliol Ch4	Graddfa Weddilliol Ch3	Graddfa Weddilliol Ch2	Graddfa Weddilliol Ch1
Gwasanaethau Cymdeithasol – Galw, Demograffeg a Chyflawni	16	16	16	16
Newid yn yr Hinsawdd	16	16	16	
Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)	12	12	12	12
Lles Staff mewn Gweithlu sy'n Lleihau	12	12	12	12
Brexit	16	16	16	12
Seiberddiogelwch	12	12	12	12
Llywodraethu Gwybodaeth	12	12	12	12
Colli Cyflogwr Sylweddol	16	12	12	
Arian Grant	9	9	9	9
Methiant Prif Gyflenwr	16	9	9	
Cysylltiadau Swyddogion/Aelodau	6	9	9	9
Rhaglen 21ain Ganrif a Rheoli Prosiectau (Band B)	8	12	12	8
Diogelu	8	8	8	8
Cyflawni'r Rhaglen ar gyfer Gweinyddu				6
Cydweithio a Threfniadau Partneriaeth	6	6	6	6

Mae'r lliwiau coch ac ambr yn amlygu'r gwahaniaeth mewn graddfeydd, gyda risg uchel yn goch a risgiau canolig yn ambr.

Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar broffil risg y Cyngor. Datblygwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru sy'n adlewyrchu'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor o ganlyniad i'r argyfwng a'r adferiad.

Gwrth-dwyll

Mae'r Gwasanaeth Archwilio, Risg a Gwybodaeth yn gyfrifol am Wrth-dwyll ac Ymchwiliadau i dwyll ac afreoleidd-dra honedig. Cafwyd saith atgyfeiriad o dwyll honedig ac afreoleidd-dra yn ystod 2019-20 a arweiniodd at gynnal tri ymchwiliad, a chyfeiriwyd un ohonynt yn uniongyrchol at yr heddlu. Mae'r rhestr isod yn grynodeb o'r themâu ar gyfer ymchwiliadau a gynhaliwyd yn 2019-20:

- Peidio â chydymffurfio â Rheoliadau Ariannol
- Diffyg cydymffurfio â Pholisi a Gweithdrefnau
- Dwyn

Mae gan y Cyngor ymagwedd dim goddefgarwch tuag at dwyll. Ategir yr ethos hwn gan Bolisi Chwythu'r Chwiban a Strategaeth a Datganiad Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo. Yn ogystal, mae Polisi Gwrth-wyngalchu Arian a Gweithdrefn Diwydrwydd Dyladwy ac Adnabod Eich Cwsmer ar waith. Mae canlyniad yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn ystod 2019-20 wedi arwain at gryfhau'r diogelwch a'r rheolaethau mewnol, a gweithredu gan reolwyr.

Roedd y risg o dwyll yn ddwysach yn ystod yr argyfwng COVID-19. Dilynodd y Cyngor ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddogaeth Atal Twyll Llywodraeth y DU, gweithredodd yn brydlon wrth dderbyn rhybuddion gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol a chaffael cymorth paru data gan y gwasanaeth atal twyll Cifas.

Rhaglen Drawsnewid

Sefydlwyd Rhaglen Drawsnewid y Cynghorau mewn ymateb i'r bwlch ariannu a nodwyd. Ar 16 Ebrill 2018, cymeradwyodd y Cabinet Drefniadau Llywodraethu'r Rhaglen Drawsnewid. Mae gan y Rhaglen Drawsnewid bresennol 16 o ffrydiau gwaith craidd o dan dair thema: Trawsnewid Technolegol, Trawsnewid Diwylliannol, a Thrawsnewid Perthynas. Mae'r Rhaglen Drawsnewid yn rhoi'r offer sydd eu hangen ar Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i'w helpu i gyflawni eu targedau lleihau costau/effeithlonrwydd (cynnal eu cyllideb llinell wastad) dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rheoli Perfformiad

Caiff mesurau perfformiad cenedlaethol a lleol eu monitro a'u hadrodd i'r CMT a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau bob tri mis. Adroddir ar ddata perfformiad blynyddol i'r CMT, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau a'r Cabinet.

Mae Data Cymru (Uned Ddata Llywodraeth Leol gynt) yn coladu data perfformiad awdurdodau lleol ledled Cymru. Nid yw Data Cymru bellach yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, ond mae gwybodaeth ar gael ar eu gwefan http://www.mylocalcouncil.info.

Llywodraethu Gwybodaeth

Y Cyfarwyddwr Adnoddau yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor (SIRO) gyda chyfrifoldeb cyffredinol am bolisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor i sicrhau bod mesurau diogelu ar waith i ddiogelu gwybodaeth. Rheoli Gwybodaeth yw un o'r ffrydiau gwaith o fewn y Rhaglen Drawsnewid. Datblygwyd Strategaeth Rheoli Data yn ystod 2019-20 a bydd gwaith pellach yn cael ei ddatblygu yn ystod 2020-21.

Diogelu Data

Y Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth yw Swyddog Diogelu Data Statudol y Cyngor. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn cadw Cofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor, sydd hefyd yn cofnodi cydymffurfiad, achosion o dorri, a digwyddiadau diogelwch er mwyn hysbysu gwasanaethau'r Cyngor am risgiau cyffredinol o ran diogelwch gwybodaeth.

Cwynion

Mae'r adroddiad blynyddol ar Ganmoliaeth a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cael eu hadrodd i'r Cabinet. Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Cwynion yn ystod 2019-20 a bydd yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi dull cyson o ymdrin â chwynion. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r Awdurdod Safonau Cwynion yn ystod 2020-21 i ddatblygu rhaglen o sesiynau hyfforddi.

Casgliad

Yn dilyn adolygiad o newidiadau a blaenoriaethau arfaethedig y Cyngor, y risgiau busnes presennol a chynnydd yn erbyn cynllun gweithredu AGS 2018-19, ynghyd ag asesiad y Cyngor o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, mae'r tabl isod yn crynhoi'r meysydd a nodwyd i'w gwella ac a flaenoriaethwyd i'w cyflawni yn ystod 2020-21. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i raddio'n RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) er mwyn penderfynu ar y sefyllfa bresennol a'r effaith bosibl ar y Cyngor, h.y. mae materion gradd goch yn risgiau sylweddol i'r cyngor a fydd yn cael eu pennu i raddau helaeth gan ffactorau allanol; mae materion gradd ambr yn feysydd i'w gwella gan y Cyngor ac sydd o dan ei reolaeth yn bennaf; ac mae materion

gradd werdd yn waith sy'n mynd rhagddo o fewn y Cyngor a flaenoriaethir i'w gyflawni er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu drwy gydol y cyfarfodydd yn 2020-21.

Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20

Materion Llywodraethu Sylweddol			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg Filltir Allweddol Dyddiadau Cwblhau**
Cynllunio Ariannol Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) cryno ym mis Chwefror 2020, wrth aros am gyllideb Llywodraeth y DU ar 11 Mawrth 2020. Bydd effaith gyfunol Brexit a COVID-19 yn lleol ac yn genedlaethol yn cael effaith sylweddol ar y MTFP. Bydd MTFP manwl yn cael ei gynhyrchu a bydd yn ystyried effaith COVID-19 ar setliadau cyllidol posibl yn y dyfodol, argaeledd cyllid grant (gan gynnwys effeithiau Brexit), y sefyllfa economaidd newidiol ac awydd gwleidyddol lleol i wneud toriadau sylweddol a/neu godiadau yn y dreth gyngor a thaliadau.	• Ail-broffilio cyllideb 2020-21 i ystyried effaith COVID-19; • Datblygu MTFP sy'n gallu addasu i'r camau ymateb – digwyddiad (argyfwng), gwellhad a chyflwr sefydlog; • Cynhyrchu asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac opsiynau ar gyfer Blaenoriaethu Gwasanaethau; • Cwblhau'r broses o ailstrwythuro'r Uwch Reolwyr.	Cyfarwyddwr Adnoddau Cyfarwyddwr Adnoddau Cyfarwyddwr Adnoddau Prif Weithredwr	Medi 2020 Tachwedd 2020 Hydref 2020 I'w gadarnhau
Gwasanaethau Cymdeithasol – Rheoli Galw Oherwydd demograffeg y boblogaeth leol, mae rheoli'r galw am gymorth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i fod yn her o fewn yr adnoddau sydd ar gael (yn fewnol ac yn allanol). Mae effaith barhaus COVID-19 yn debygol o gael canlyniadau arwyddocaol i'r gwasanaethau cymdeithasol o ran y galw cynyddol am wasanaethau a chymorth a hefyd argaeledd darparwyr i ddarparu gwasanaethau mewn modd diogel a gwydn.	• Adeiladu ar lwyddiant yr Hwb Cymunedol, a ddatblygwyd mewn ymateb i argyfwng COVID-19; • Cynyddu'r capasiti i ymdrin â'r galw a darparu cydnerthedd; • Defnyddio cyllid trawsnewid allanol i ariannu tîm gofal brys gydag iechyd; • Parhau i adolygu a monitro cyllidebau er mwyn nodi'r pwysau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni erbyn diwedd y flwyddyn; • Mwyafu unrhyw ffynonellau cyllid allanol sydd ar gael a allai fod ar gael naill ai i'r cyngor neu i Ddarparwyr Gwasanaethau o ganlyniad i COVID-19.	Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai Pennaeth Cydbwyllgor Strategol Rheolwr Ewropeaidd	I'w gadarnhau Parhaus

Materion Llywodraethu Sylweddol			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg filltir Allweddol Dyddiadau cwblhau**
Adferiad Sefydliadol o COVID-19 Yn ystod cyfnod ymateb COVID-19, ataliodd y Cyngor rai gwasanaethau, gan weithredu mewn ffyrdd gwahanol a chyflawnodd ddyletswyddau newydd. Wrth i'r Cyngor symud ymlaen i'r cam adfer, mae angen blaenoriaethu'r gwaith o adfer gwasanaethau, swyddogaethau a gweithrediadau'r Cyngor er mwyn symud y Cyngor tuag at gyflwr o normalrwydd y bwriedir ei gyflawni. Bydd angen gwneud hyn mewn modd strwythuredig er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd, staff ac aelodau, gan fanteisio ar y cyfleoedd dysgu sefydliadol a gyflwynir gan COVID-19.	• Cwblhau adolygiad dysgu sefydliadol;	Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth	Awst 2020
	• Blaenoriaethu'r angen i adfer gwasanaethau ar sail canllawiau sy'n dod i'r amlwg, argaeledd yr adnoddau gofynnol (staffio, Cyfarpar Diogelu Personol, adeiladau, cludiant, ac ati), a'r galw;	Cyfarwyddwr Adnoddau	Parhaus
	• Cydgysylltu a rheoli newidiadau i'r gweithlu a'r galwadau i wella cadernid y sefydliad ac i gyflawni'r blaenoriaethau sefydliadol a ddymunir;	Pennaeth AD	Parhaus
	• Mapio ac alinio'r Fframwaith Polisi (pob Strategaeth a Pholisi) â blaenoriaethau'r sefydliad ôl-COVID-19;	Rheolwr Cymorth Partneriaeth au a Chraffu	Awst 2020
	• Cefnogi'r gwaith o gyflwyno newidiadau wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar ganlyniadau dysgu sefydliadol er mwyn galluogi gwasanaethau i ailfodelu, adfer ac adnewyddu.	Rheolwr Newid Busnes	Parhaus

Materion Llywodraethu Sylweddol			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Cerrig Milltir Allweddol Dyddiadau cwblhau**
Addysg Ym mis Rhagfyr 2019, cwblhaodd Estyn arolygiad o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol y Cyngor (LGES) a daeth i'r casgliad bod yr LGES yn achosi pryder sylweddol a bod angen gweithgarwch dilynol arnynt. Fel gydag awdurdodau addysg lleol eraill, cafodd dysgu mewn ysgolion ei atal am gyfnod o 3 mis oherwydd trefniadau cyfnod clo COVID-19. Bydd ysgolion yn ailagor ar 29 Mehefin 2020. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw adfer ysgolion mewn modd diogel a chynaliadwy.	• Gweithredu Cynllun Gweithredu Estyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu ar 11 Mehefin 2020; • Cynnal adolygiadau ôl-weithredu i fesur llwyddiant y camau a gymerwyd; • Parhau i ddarparu cyfarpar a chymorth addysgu i fyfyrwyr sy'n gweithio o bell; • Cefnogi dysgwyr agored i niwed yn ôl i leoliadau hwb ac ysgolion; • Gweithredu argymhellion adolygiadau Archwilio Mewnol o Effeithiolrwydd Ysgolion (Rôl Cynghorydd Herio) a Newidiadau yn Arweinyddiaeth Ysgolion.	Cyfarwyddwr Dros Dro Plant ac Ysgolion	I'w gadarnhau
Partneriaeth Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) Mae effeithiolrwydd ERW wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda ffocws y Bartneriaeth wedi symud o gyflenwi canlyniadau addysgol i ôl-troed a threfniadau llywodraethu'r Bartneriaeth. Mae adolygiad Archwilio Mewnol ERW wedi arwain at farn sicrwydd cyfyngedig am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot wedi tynnu'n ôl o'r cydweithio ac mae Cynghorau Sir Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe a Sir Gaerfyrddin wedi rhoi rhybudd i wneud yr un peth. Mae Prif Weithredwyr ac Arweinwyr wedi cyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol er mwyn cael trafodaeth ddechreuol ynghylch trefniadau posibl yn y dyfodol lle nodir bod	• Cyfarfod â'r Gweinidog Addysg i gadarnhau'r sefyllfa ar gyfer Sir Benfro a fydd yn gwasanaethu ein dysgwyr orau. • Trefniadau i ddod ag ERW i ben. • Mae Cyngor Sir Penfro yn adolygu'r cytundebau lefel gwasanaeth gydag ERW ac yn rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer eu terfynu posibl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed ariannol.	Prif Weithredwr	Gorffennaf 2020 Mawrth 2021 Mawrth 2021

angen i gonsortia newydd fod yn seiliedig ar ôl-troed Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Ysgrifennodd yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Dros Dro at y Gweinidog Addysg ym mis Mai i ofyn am gyfarfod brys ac ailddatgan ymrwymiad Sir Benfro i weithio'n rhanbarthol, gyda manteision i ddysgwyr yn greiddiol i'n buddiannau. Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu nifer o wasanaethau craidd i ERW, y mae rhai ohonynt yn cael eu hariannu drwy gytundeb lefel gwasanaeth (Adnoddau Dynol, TG, Cyllid, Caffael ac Archwilio Mewnol) gyda rôl Swyddog Adran 151 yn cael ei chyflwyno fel trefniant mewn da (rhannwyd rolau craidd ar draws yr awdurdodau partner).			

Blaenoriaeth ar gyfer Gwella			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg Filltir Allweddol Dyddiadau Cwblhau**
Cod Llywodraethu Lleol Ers i'r Cod Llywodraethu Lleol gael ei gymeradwyo yn 2017, bu nifer o newidiadau i'r fframwaith polisi a llywodraethu nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd.	• Diweddaru'r Cod Llywodraethu Lleol a symud at fformat rhyngweithiol ar y we i symleiddio gwaith cynnal a chadw.	Prif Swyddog Archwilio Risg a Gwybodaeth	Rhagfyr 2020
Rheoli Eiddo Masnachol Arweiniodd adolygiad Archwilio Mewnol o ôl-ddyledion rhent eiddo masnachol a gynhaliwyd yn ystod 2019-20 at farn sicrwydd cyfyngedig. Mae nifer o faterion a nodwyd wedi'u codi mewn adolygiadau blaenorol. Mae effeithiau COVID-19 wedi golygu bod yn rhaid cael polisi diwygiedig ar gyfer adolygiadau rhent ac mae Deddf Coronafeirws 2020 yn cynnwys moratoriwm ar fforffediad. Mae swyddogion yn defnyddio Cod Ymarfer Llywodraeth y DU ar gyfer cydberthnasau eiddo masnachol yn ystod pandemig COVID-19.	• Gweithredu Argymhellion yr Archwiliad Mewnol. • Camau dilynol i roi sicrwydd bod y canlyniadau a fwriedir wedi'u cyflawni.	Prif Swyddog Eiddo Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth	I'w gadarnhau I'w gadarnhau
Gweithredu Argymhellion yr Adolygiad gan Gymheiriaid Cymerodd y Cyngor ran yn yr her gyntaf i Gymheiriaid Corfforaethol yng Nghymru gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) ym mis Chwefror 2020. Amlygwyd nifer o faterion llywodraethu o fewn yr adolygiad fel rhai sydd angen gwelliant. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r argymhellion.	• Cynllun gweithredu drafft mewn ymateb i argymhelliad yr Adolygiad Corfforaethol gan Gymheiriaid i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo; • Rhoi Argymhellion yr Her Gorfforaethol gan Gymheiriaid ar waith; • Adolygu ar ôl gweithredu er mwyn sicrhau bod y camau a gymerwyd wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.	Prif Weithredwr	Medi 2020 I'w gadarnhau I'w gadarnhau

Blaenoriaethau ar gyfer Cyflawni			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg Filltir Allweddol Dyddiadau cwblhau**
Model Gweithredu Targed Amlygodd yr Her Gorfforaethol gan Gymheiriaid yr angen i sefydlu eglurder ynghylch y Model Gweithredu Targed ar gyfer y Cyngor. Mae effaith COVID-19 wedi amlygu ymhellach yr angen i gynhyrchu Model Gweithredu Targed wedi'i ddiweddaru i ddarparu eglurder ynghylch y trawsnewid sydd ei angen i ddarparu defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau i ddarparu anghenion y cymunedau a wasanaethir gennym. Mae gwaith i ddatblygu Model Gweithredu Targed wedi bod yn parhau, ond fe'i gohiriwyd ar hyn o bryd ar ôl datblygu Polisi ar Dudalen gan y Cabinet, er mwyn ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19.	• Defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o Ddysgu Sefydliadol a'r Asesiad Effaith ar y Gymuned i gyflawni Model Gweithredu Targed diwygiedig; • Adolygiad parhaus o ba mor effeithiol yw'r Model Gweithredu Targed fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau; • Ymgorffori Dysgu Sefydliadol ym mhrosesau busnes y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Model Gweithredu Targed yn parhau i fod yn addas at y diben.	Prif Weithredwr	I'w gadarnhau
Lleihau Carbon Datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ym mis Mai 2019 ac mae'n dal i weithio tuag at fod yn Awdurdod digarbon net erbyn 2030.	• Manteisio ar newidiadau mewn arferion gwaith o ganlyniad i COVID-19 i leihau allyriadau carbon ymhellach; • Datblygu cynllun tuag at fod yn ddigarbon net erbyn 2030; • Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydbwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu cyfleoedd cyffrous i arbed carbon; • Cydweithio ag arbenigwyr o'r sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu atebion dyfeisgar i fod yn ddigarbon net.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus Medi 2020 Parhaus

Blaenoriaethau ar gyfer Cyflawni			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg Filltir Allweddol Dyddiadau cwblhau**
Systemau Rheoli Gwybodaeth Ariannol (FIMS) Roedd y Cyngor yn bwriadu gweithredu System Rheoli Gwybodaeth Ariannol ym mis Mawrth 2020 a fyddai'n disodli'r cyfriflyfr cyfredol a nifer o systemau etifeddol. Oherwydd COVID-19, cymerwyd y penderfyniad i atal gweithredu tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	• Adolygu'r cynllun gweithredu gyda cherrig milltir allweddol er mwyn sicrhau y caiff ei weithredu erbyn 31 Mawrth 2021.	Dirprwy Brif Swyddog Cyllid	Medi 2020
Parhau i Feithrin Cydberthnasau Cymunedol Cadarnhaol Yn ystod yr ymateb COVID-19, bu cynnydd mawr o ran cryfhau cydberthnasau, gydag enghreifftiau fel sefydlu'r Hwb Cymunedol a sefydlu Grŵp Cynghori Annibynnol. Bydd y Cyngor yn anelu at adeiladu ar y sylfeini cadarnhaol hyn.	• Perthnasoedd cymunedol cadarnhaol COVID-19 i'w plethu i mewn i Raglen Trawsnewid Perthnasoedd y Cyngor o dan gyfarwyddyd y Noddwr Gweithredol (Perthnasoedd). • Datblygu ffrwd waith i sicrhau bod y perthnasoedd cymunedol cadarnhaol a adeiladwyd yn ystod COVID-19 yn cael eu gwella ymhellach fyth.	Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai	I'w gadarnhau
Gwrth-dwyll Bu mwy o risg o dwyll yn ystod y pandemig. Disgwylir i'r bygythiad barhau a bydd angen rhoi mesurau ychwanegol ar waith i leihau'r bygythiad.	• Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant/ymgyrchoedd wedi'u targedu; • Parhau ag ymarferion paru data yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw drafodion anarferol neu amheus; • Archwilio'r cyfle i fod yn aelod o Cifas i gael mynediad at gronfeydd data rhannu twyll traws-sector; • Asesu risg barhaus arferion gwaith newydd/newidiol er mwyn nodi bygythiadau o dwyll a darparu cymorth wrth nodi camau lliniaru.	Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth	Parhaus Parhaus Medi 2020 Parhaus

Blaenoriaethau ar gyfer Cyflawni			
Sefyllfa Bresennol	**Camau Gweithredu Arfaethedig/Cerrig Milltir Allweddol**	**Perchennog**	**Carreg filltir allweddol Dyddiadau cwblhau**
Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyflwynwyd adroddiad ar adolygiad Cyfathrebu i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2020. Penderfynodd y Cabinet ymgysylltu â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i gynnal Her Gyfathrebu gan Gymheiriaid ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, gohiriwyd hyn oherwydd COVID-19. Mae ymgynghori ac ymgysylltu wedi'i amlygu fel maes i'w wella o nifer o ffynonellau mewnol ac allanol. Mae'r Cyngor wedi addasu ei ddull o ymdrin â'r meysydd hyn yn ddeheuig o ganlyniad i'r rheidrwydd i ymateb i'r galwadau sy'n codi o'r pandemig COVID-19. Wedi dweud hynny, mae'r bwriad i weithio gyda'r Gymdeithas ar adolygiad i lywio datblygiad strategaeth yn parhau a bydd yn cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl. Mae meddalwedd ymgysylltu wedi'i nodi a chytundeb i brynu wedi'i gymeradwyo.	• Cydgysylltu â'r Gymdeithas i drefnu dyddiad ar gyfer yr Her Cyfathrebu gan Gymheiriaid; • Datblygu Strategaeth Gyfathrebu. • Prynu a hyrwyddo'r defnydd o feddalwedd Ymgynghori ac Ymgysylltu newydd;	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Pennaeth TG	Cyn gynted â phosibl. I'w gadarnhau Gorffennaf 2020
Rheoli Data Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Trawsnewid Strategaeth Rheoli Data lefel uchel fel ffordd o drawsnewid dull y Cyngor o reoli data a gwybodaeth er mwyn dod yn Gyngor a yrrir gan ddata.	• Cynnal adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Data lefel uchel i nodi camau y gellir eu cyflawni o ystyried y cyfyngiadau presennol o ran cynhwysedd. • Gweithio tuag at gyflawni'r Strategaeth Rheoli Data lefel uchel.	Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth	Medi 2020 Mawrth 2021

Arweinydd/Prif Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig)

Rydym wedi cael cyngor ar oblygiadau canlyniadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y systemau sydd ar waith yn gwella'n barhaus.

Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r fframwaith a nodwyd uchod wedi cael ei weithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ffordd yr adolygir effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yn parhau i gael ei datblygu yn y dyfodol gan ystyried y Cod, profiad, arfer gorau, canllawiau priodol ac unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n effeithio ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Dros y flwyddyn i ddod, rydym yn cynnig cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod i wella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithredu a'u gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Y CYNGHORYDD D. SIMPSON
Arweinydd
Dyddiad:

I. WESTLEY
Prif Weithredwr
Dyddiad: